

Cyngor Sir y Fflint

Fframwaith polisi ar
Gyfer plant gydag anghenion
dysgu ychwanegol (ADY)



2023 - 2026

Trosolwg

Polisi	Fframwaith Polisi ar gyfer Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Perchennog	Jeanette Rock
Cyswllt a enwebwyd	Paula Roberts
Adolygydd gan	Jeanette Rock a Paula Roberts
Dyddiad yr adolygiad diwethaf	Medi 2022
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Medi 2024
Dogfennau cysylltiedig	

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Awdur	Crynodeb o'r Newidiadau
2	Medi 2022	Jeanette Rock	Diweddarwyd i gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth

1.	Policy Frameworks for children with Additional learning Needs (ALN)	5
1.1	Purpose	5
1.	Fframweithiau Polisi ar gyfer plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	5
1.1	Pwrpas	5
1.2	Cwmpas	5
1.3	Egwyddorion	5
2.	Gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r arferion a'r datblygiadau i'r dyfodol ar gyfer plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol	8
2.1	Continwwm o ddarpariaeth	9
2.2	Ymateb i newid	9
2.3	Gweithio mewn partneriaeth	9
3.	Datganiad Polisi	9
3.1	Cwricwlwm i bawb	9
3.2	Diwallu dymuniadau rhieni a phlant	10
3.3	Y Gwasanaeth Cefnogi a Gwybodaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNISS)	10
3.4	Cefnogaeth ar gyfer y plentyn/ unigolyn ifanc	11
3.5	Trefniadau Cyfryngu	11
3.6	Polisi ar gyfer Cynhwysiant	11
3.7	Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg	11
3.8	Tegwch cyllid/ darpariaeth	11
3.9	Dyrannu adnoddau ychwanegol	12
3.10	Darparu cludiant am ddim	12
3.11	Y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant	12
3.12	Gweithio gydag asiantaethau eraill	12
3.13	Hyfforddiant	12
3.14	Monitro	13
4.	Hyrwyddo safonau addysg uchel ar gyfer plant a phobl ifanc	14
5.	Annog plant a phobl ifanc gydag ADY i gymryd rhan lawn yn eu hysgol a'u cymuned a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg	14
6.	Annog ysgolion i rannu eu harferion o ran darparu ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY	15
7.	Gweithio gyda chyrrff gwirfoddol ac asiantaethau statudol eraill i ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag ADY	15

Contents

8.	Trefniadau cyffredinol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer diwallu ADY plant a phobl ifanc	16
8.1	Darpariaeth ar gyfer cynhwysiant	16
8.2	Strategaeth Cynhwysiant	16
8.3	Manylion yr ystod o ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael	17
8.4	Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant Cyngor Sir y Fflint	19
8.5	Darpariaeth ar gyfer plant yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar	19
9.	Adnabod plant gydag ADY	20
9.1	Trefnu ystyriaeth ADY awdurdod lleol	20
9.2	Ceisiadau am ystyriaeth ADY a phenderfyniad gan yr awdurdod lleol	20
9.3	Y broses asesu/ ystyried	21
10.	Monitro derbyniadau plant a phobl ifanc gydag ADY	22
10.1	Polisi Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint	22
10.2	Ystod y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol yn Sir y Fflint	22
11.	Cefnogi ysgolion gyda darparu ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY	23
11.1	Ysgolion prif ffrwd	23
11.2	Ysgolion Arbennig	23
12.	Archwilio, cynllunio, monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY	23
12.1	Cyffredinol	23
12.2	Disgyblion unigol	24
12.3	Cefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY trwy gynlluniau datblygu unigol dan ofal yr ysgol	24
12.4	Sicrhau hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i aelodau staff sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc gydag ADY	24
12.5	Dyraniadau cyllideb i awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer disgyblion gydag ADY	25
12.6	Monitro ac adolygu gwasanaethau cymorth ADY canolog	26
12.7	Monitro ac adolygu'r gwasanaethau cyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth ADY annibynnol	27
12.8	Ystyried niferoedd disgyblion presennol a'r niferoedd a ragwelir	27
12.9	Monitro'r mathau o anghenion a nodwyd a lle caiff plant a phobl ifanc eu lleoli	27
	Atodiad 1- Rhestr Termu	28

1. Fframweithiau Polisi ar gyfer plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

1.1 Pwrpas

Nod y polisi hwn a'r ymarfer y mae'n ei lywio, yw sicrhau'r cyfleoedd addysgol gorau posibl i holl ddisgyblion Sir y Fflint y nodir bod ganddynt ADY. Fe gyflawnir hyn drwy gynnig addysg berthnasol a gwerth chweil i bob plentyn, addysg sydd wedi'i chynllunio i'w galluogi i gael eu cynnwys a chymryd rhan yn llawn yn y gymdeithas y maent yn cyfrannu iddi ac y maent yn elwa ohoni.

1.2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob plentyn yn Sir y Fflint y nodir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

1.3 Egwyddorion

Mae'r egwyddorion canlynol yn sylfaenol i waith y Cyngor a gwaith ein hysgolion mewn perthynas â phlant a phobl ifanc gydag ADY:

- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwmo i bolisi o gynnwys pawb, gyda brwdfrydedd dros ddatblygiad parhaus diwylliannau a chymunedau cynhwysol yn ein hysgolion ac o'u hamgylch, er mwyn sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael mynediad at addysg o safon uchel sy'n eu cefnogi i ddod yn ddinasyddion gweithgar.
- Fel Cyngor, rydym wedi ymrwmo i gefnogi a chyflawni'r egwyddorion sy'n sail i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y disgrifir ym Mhennod 3, Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd a pherthnasedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ar draws ein holl feysydd gwaith.
- Rydym yn cydnabod bod anghenion a dymuniadau'r plentyn/unigolyn ifanc yn hollbwysig a bod ymyrraeth gynnar yn allweddol i ddarparu strategaethau ac ymyriadau perthnasol i gefnogi unigolion i ddatblygu, i wneud cynnydd ac i gyflawni'r canlyniadau y maent yn eu dymuno.
- Credwn fod cydgyfrifoldeb i sicrhau'r cyfleoedd addysgol gorau i holl blant a phobl ifanc Sir y Fflint y nodir bod ganddynt ADY. Dylid canfod a dileu rhwystrau, gan alluogi'r holl ddysgwyr i gymryd rhan ac elwa o ddysgu, gyda phob un yn datblygu eu meysydd penodol o gryfder.
- Mae gennym ddiwylliant o ddisgwyliadau uchel ar ein cyfer ni ein hunain, ein hysgolion, plant a phobl ifanc ac rydym yn cynnig continwwm eang o ddarpariaeth i blant gydag ADY. Bydd y continwwm hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn ymateb i natur a graddau'r ADY sydd gan ein plant a'n pobl ifanc.

-
- Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i gefnogi mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i bawb trwy ei rwydwaith ysgol a hefyd y gwasanaethau cymorth priodol sydd ar gael i blant a phobl ifanc gydag ADY, gan gomisiynu'r rhain pan fo angen.
 - Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhan bwysig ac annatod o'n hymagwedd, ac o ganlyniad bydd yn cael ei wreiddio ar draws yr holl wasanaethau a lleoliadau i sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio. Bydd y Cyngor a'i leoliadau a gynhelir yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni, plant a staff addysgol i sicrhau bod yr holl blant, rhieni, pobl ifanc a staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi.
 - Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd, ac effaith gadarnhaol cydweithio a gwaith amlasiantaeth. Rhoddir cefnogaeth ac ystyriaeth i hwyluso cydweithio a chyfranogiad effeithiol yr holl bartion, gan gynnwys darparu mynediad i wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i gefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad llawn plant, pobl ifanc a rhieni mewn prosesau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY.
 - Byddwn yn cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth rhieni o'r system ADY, gan gynnwys dulliau ariannu, i alluogi rhieni i wneud dewisiadau gwybodus a chefnogi eu cyfraniad at ymarferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
 - Bydd anghenion addysgol ac ADY y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc Sir y Fflint yn cael eu nodi, eu diwallu a'u monitro o fewn ysgolion prif ffrwd neu sefydliadau addysg bellach lleol. Bydd hyn drwy wahaniaethu a defnyddio strategaethau priodol ac ymyraethau wedi'u targedu o fewn cynnig cyffredinol o addysg o safon uchel. Bydd Cynllun Datblygu Unigol (CDU) mwyafrif y plant a'r bobl ifanc sydd gydag ADY yn cael ei lunio a'i gynnal gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach.
 - Dylai lleoliadau wneud defnydd llawn o Becyn Gwaith ADY Sir y Fflint wrth gynllunio a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY. Dylid rhoi gwybod i rieni am y Pecyn Gwaith a'i ddiben i hwyluso eu hymgysylltiad a'u dealltwriaeth o'r ddarpariaeth ar gyfer eu plentyn.
 - Mae'r Cyngor yn cytuno â'r egwyddor y dylai plant fynychu eu hysgol leol a dod yn rhan annatod o'u cymuned. I hwyluso a chefnogi hyn, mae cyllid ar gyfer ADY yn cael ei ddirprwyo i bob lleoliad a gynhelir. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y cyllidebau dirprwyedig yn ariannu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen i ddiwallu mwyafrif yr anghenion unigol sy'n cynnwys darparu canolfannau adnoddau arbenigol, ysgolion arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.
 - O ystyried fformiwla cyllideb ysgolion a'r model dirprwyo ar gyfer ADY, fel arfer disgwylir i ysgolion fodloni gofynion staffio disgyblion gydag ADY. Mewn achosion lle mae anghenion unigolyn yn sylweddol, a bod angen lefel uchel o ymyrraeth hynod arbenigol wedi'i thargedu e.e. ymyrraeth therapiwtig benodol na ddarperir yn rhesymol gan leoliad addysgol, yna ystyrir darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r ysgol i'w darparu.
 - Disgwylir i leoliadau ddarparu mynediad at offer TG megis gliniaduron, iPads ac ati mewn ymateb i anghenion unigol. Disgwylir i ysgolion neu'r Cyngor brynu offer arbenigol arall yn unol â pholisi'r Cyngor.

- Panel Penderfyniadau ADY y Cyngor sy'n pennu bob lleoliad mewn darpariaeth arbenigol a gynhelir yn Sir y Fflint ar ôl ystyried/ ail-ystyried y CDU. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd Cyngor Sir y Fflint yn llunio'r CDU ar gyfer y dysgwyr hyn ac yn gofyn i'r ysgol gynnal y CDU.
- Mae lleoedd mewn lleoliadau arbenigol annibynnol hefyd yn cael eu cytuno/comisiynu gan y Cyngor ac nid oes angen i ysgolion gyfrannu cyllid tuag at y rhain; mae cyllideb i ariannu darpariaeth mewn lleoliadau arbenigol nas cynhelir gan Sir y Fflint yn cael ei chadw yn ganolog.
- Mae lleoedd mewn lleoliadau arbenigol annibynnol hefyd yn cael eu cytuno/comisiynu gan y Cyngor ac nid oes angen i ysgolion gyfrannu cyllid tuag at y rhain; mae cyllideb i ariannu darpariaeth mewn lleoliadau arbenigol nas cynhelir gan Sir y Fflint yn cael ei chadw yn ganolog.
- Bydd Cyngor Sir y Fflint yn llunio a chynnal CDU i blant a phobl ifanc gydag ADY sy'n Derbyn Gofal, sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad, sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'r sir neu sydd wedi'u lleoli mewn lleoliad annibynnol arbenigol.
- Mae'r Cyngor yn cadw cyllideb ganolog i ariannu amrywiaeth o wasanaethau arbenigol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion unigol gan gynnwys ADY. Mae'r rhain am ddim i bob lleoliad a gynhelir yn Sir y Fflint. Mae graddau a pharhad y cyngor yn benodol i bob maes gwasanaeth a hefyd i anghenion yr unigolyn. Mae gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â gwasanaethau ar gael ar dudalennau Hwb Cyngor Sir y Fflint.



2. Gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r arferion a'r datblygiadau i'r dyfodol ar gyfer plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i bolisi o gynnwys pawb. Mae'r Cyngor a'i ysgolion yn credu'n gryf yn yr egwyddor hon.

Ein nod yw creu diwylliannau a chymunedau cynhwysol yn ein hysgolion ac o'u hamgylch. Rydym eisiau i'r holl blant, pobl ifanc, rhieni a staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Rydym eisiau chwalu rhwystrau rhag dysgu ac ennyn cyfranogiad llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod y dyletswyddau a osodir arno gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) ac fe fydd ei waith yn cael ei arwain a'i ddiffinio gan y ddeddfwriaeth a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

- 1) Mae gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo ef neu hi anhawster neu anabledd dysgu (p'un ai yw'r anhawster neu'r anabledd dysgu yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- 2) Mae gan blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol neu unigolyn sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi:
 - a) yn ei chael yn llawer anoddach dysgu na mwyafrif y disgyblion eraill o'r un oedran, neu or
 - b) ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n eu rhwystro neu'u hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- 3) Mae gan blentyn iau na'r oedran ysgol gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi yn debygol o ddod o dan is-adran (2) pan fyddant yn cyrraedd yr oedran ysgol gorfodol, neu'n debygol o fod os na chynhigir darpariaeth ddysgu ychwanegol.
- 4) Nid oes gan unigolyn anhawster neu anabledd dysgu os yw'r iaith (neu'r math o iaith) y caiff ef neu hi ei ddysgu/dysgu ynddi, neu a fydd yn cael ei ddysgu/dysgu ynddi, yn wahanol i'r iaith (neu fath o iaith) sydd wedi neu yn cael ei defnyddio gartref.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, Adran 2

Mae'r fframwaith yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â pholisïau ac arferion yr ydym ni o'r farn a fydd yn helpu plant gydag ADY i ddysgu a ffynnu o fewn ein system addysg.

2.1 Continwwm o ddarpariaeth

Drwy ei ysgolion, bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i ddarparu continwwm eang o ddarpariaeth ar gyfer plant gydag ADY. Bydd y continwwm hwn yn ymateb i natur a graddau ADY plant. Wrth wneud darpariaeth, bydd y Cyngor a'i ysgolion yn ystyried.

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Bydd anghenion y mwyafrif helaeth o blant gydag ADY yn cael eu nodi, eu diwallu a'u monitro o fewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o wasanaethau a ariennir yn ganolog i ddarparu cefnogaeth, arweiniad ac ymyrraeth i unigolion, ysgolion a rhieni mewn ymateb i ystod o anghenion unigol.

Fe fydd gan nifer fechan o blant anghenion unigol na ellir eu diwallu'n rhesymol o fewn ysgol brif ffrwd. Mae nifer o Ganolfannau Adnoddau wedi'u sefydlu ar draws y sir i gefnogi ystod o ADY, gan alluogi plant i gael mynediad at ymyrraeth a chefnogaeth fwy arbenigol o fewn lleoliad prif ffrwd. Mae ysgolion arbenigol a Phlas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio) yn cynnig darpariaeth ar gyfer unigolion gydag ADY mwy sylweddol neu gymhleth.

2.2 Ymateb i newid

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei gontinwmm o ddarpariaeth fel ei fod yn gallu parhau i:

- adlewyrchu patrwm a natur newidiol ADY plant;
- ymateb i'r hyn mae plant a rhieni yn ei ffafrio; ac
- anelu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i ddarparu addysg o'r safon orau.

2.3 Gweithio mewn partneriaeth

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni, plant, pobl ifanc a staff addysgol, er mwyn gwella canlyniadau'r unigolion gydag ADY. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i adolygu a datblygu ein gwaith partneriaeth yn barhaus gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a SNAP Cymru, o ran darpariaeth y Gwasanaeth Cefnogi a Gwybodaeth ADY a'r sector gwirfoddol, er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl ar unigolion gydag ADY a'u teuluoedd.



3. Datganiad Polisi

3.1 Cwricwlwm i bawb

Dylai bob plentyn fod â'r un hawl gwricwlaidd. Bydd pob plentyn yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru, oni bai fod angen ei addasu neu ei ddatgymhwyso er mwyn diwallu eu ADY.

3.2 Diwallu dymuniadau rhieni a phlant

Lle bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn ceisio lleoli plant mewn ysgolion yn unol â'u dymuniadau eu hunain a dymuniadau eu rhieni. Pan fo rhaid newid lleoliad addysgol o ganlyniad i anghenion plentyn unigol, ymgynghorir bob amser â'r rhieni, a'r plant lle bo hynny'n briodol, ynglŷn â'r lleoliad newydd. Bydd yr ysgol bresennol yn casglu safbwyntiau'r plentyn, a fydd yn rhan o'r cyngor a gyflwynir gan ysgolion i'r Cyngor.

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i addysgu plant mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir. Mae tri eithriad i'r ddyletswydd hon:

- (a) pan fo addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn anghydnaws â'r ddarpariaeth o addysg effeithlon i blant eraill;
- (b) pan fo addysgu'r plentyn mewn lleoliad gwahanol i ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er budd pennaf y plentyn ac yn gydnaws â'r ddarpariaeth o addysg effeithlon i blant eraill; a
- (c) pan fo rhieni'r plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn lleoliad gwahanol i ysgol brif ffrwd a gynhelir.

Rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau hyn pan fo dewis gwahanol i ysgol brif ffrwd yn cael ei ystyried.

3.3 Y Gwasanaeth Cefnogi a Gwybodaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNISS)

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi a Gwybodaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn wasanaeth annibynnol sydd ar gael i holl blant Sir y Fflint a'u rhieni neu ofalwyr a phobl ifanc sydd â/neu sydd o bosibl gydag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff ei ddarparu gan SNAP Cymru sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd. Gall y gwasanaeth helpu gyda chyngor ac ymholiadau cyffredinol, neu ddarparu cymorth mwy manwl gan weithiwr achos, a fydd yn:

- Darparu gwybodaeth glir, ddibynadwy ac uniongyrchol ynglŷn â dewisiadau;
- Helpu rhieni a phobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus a rhannu eu safbwyntiau yn hyderus; a
- Helpu i sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar fudd pennaf y plentyn neu'r unigolyn ifanc.

Manylion cyswllt:

Llinell gymorth: 0808 801 0608

Ymholiad ADY: <https://www.snapcymru.org/contact/?lang=cy>

E-bost: enquiries@snapcymru.org

Gwefan: <https://www.snapcymru.org/?lang=cy>

3.4 Cefnogaeth ar gyfer y plentyn/ unigolyn ifanc

Dylai plant a phobl ifanc fod yn ganolbwynt i'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch eu hanghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal â'u rhieni, mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i apelio o dan ddeddfwriaeth anghenion addysg arbennig (AAA/ADY). Blaenoriaeth y Cyngor fyddai atal

anghydfod rhag codi neu ddatrys unrhyw anghydfod cyn gynted a mor effeithlon â phosibl. Caiff cefnogaeth i blant a phobl ifanc yn y sefyllfa hon ei darparu ar ffurf eiriolaeth annibynnol a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Cefnogi a Gwybodaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Os bernir bod gan blentyn neu unigolyn ifanc ddiffyg galluedd, gall yr unigolyn ddefnyddio Cyfaill Achos i'w gynrychioli, ei gefnogi a gwneud penderfyniadau ar ei ran. Caiff Cyfeillion Achos eu penodi neu eu diddymu gan y Tribiwnlys Addysg.

3.5 Trefniadau Cyfryngu

Mae gwasanaethau datrys anghydfod a chyfryngu ar gael drwy SNAP Cymru. Prif nod y gwasanaeth yw ceisio cytundeb rhwng y plentyn, yr unigolyn ifanc, rhieni a darparwyr gwasanaeth lle nad ydynt wedi gallu cytuno ar anghenion y plentyn a sut y dylid eu diwallu.

3.6 Polisi ar gyfer Cynhwysiant

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn mynd ati i hyrwyddo cynhwysiant pob plentyn gydag ADY ac mae'n credu y dylid darparu ar gyfer anghenion plentyn yn eu hysgol brif ffrwd leol.

Lle nad oes modd gwneud hyn, bydd ysgol brif ffrwd arall gydag adnoddau addas yn cael ei hystyried. Pan na ellir diwallu anghenion dysgu ychwanegol unigolyn yn llawn ac yn briodol o fewn lleoliad prif ffrwd, fe fydd darpariaeth arall, rhan amser neu lawn amser, yn cael ei ddarparu iddynt mewn lleoliad arbenigol.

3.7 Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae addysg prif ffrwd ar gael ym mhob cyfnod ar gyfer plant sy'n dymuno derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i bawb trwy ei wasanaethau cymorth priodol sydd ar gael i blant gydag ADY, rhieni ac ysgolion, a chaiff y rhain eu comisiynu yn ôl yr angen.

3.8 Tegwch cyllid/ darpariaeth

Mae gan bob plentyn gydag ADY hawl i gael diwallu eu hanghenion, ni waeth lle maent yn derbyn eu haddysg. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi dirprwyo cyllid i bob ysgol, ac felly mae gofyn iddynt ddatblygu a gweithredu ystod o ymyraethau a chefnogaeth i ddiwallu anghenion eu carfanau. Gellir cynnig cefnogaeth ar lefel gyffredinol neu drwy Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer yr unigolion sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), oni bai na all ysgol fodloni'r DDdY yn rhesymol a bod angen darpariaeth fwy arbenigol.

Mae'r Cyngor yn cynnal paneli gwneud penderfyniadau sy'n ystyried yr angen am ddarpariaeth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael o fewn yr ysgol. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar ystyriaeth o anghenion unigol.

3.9 Dyrannu adnoddau ychwanegol

Mae gan ysgolion adnoddau i ddiwallu anghenion addysgol y rhan fwyaf o blant trwy eu cyllidebau dirprwyedig. Mae'n bosibl y bydd rhai plant, sydd â lefelau sylweddol iawn o anghenion corfforol a/neu feddygol, angen lefel o gymorth na ellir disgwyl yn rhesymol i ysgol ei ddarparu gan

ddefnyddio eu cyllid dirprwyedig. Mae penderfyniad wedi ei wneud gydag ysgolion i dynnu dyraniad haen uchaf y gyllideb ddirprwyedig a'i gadw ar wahân fel cronfa adnoddau ychwanegol y gall yr ysgolion ei defnyddio i gefnogi unigolion gydag anghenion lefel uchel. Mewn achosion o'r fath, mae'r Cyngor wedi'i ddynodi fel y corff sy'n gwneud penderfyniadau ar ran y rhwydwaith ysgol o ran cael mynediad i'r gronfa adnoddau ychwanegol. Bydd y ddarpariaeth ychwanegol hon, os caiff ei dyrannu, yn cael ei nodi naill ai yng Nghynlluniau Gofal Iechyd, Datganiadau AAA neu Gynlluniau Datblygu Unigol plant. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei monitro drwy adolygiadau rheolaidd ac fe all newid mewn ymateb i anghenion yr unigolyn.

3.10 Darparu cludiant am ddim

Mewn rhai achosion, fe fydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant gydag ADY. Mae'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim wedi'u nodi ym mholisi cludiant y Cyngor. Mae copi o'r polisi hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

3.11 Y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant sy'n anelu i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a chydlynol sydd ar gael i'r holl ysgolion, plant a'u teuluoedd. Bydd mynediad i'r gwasanaethau hyn yn cael ei flaenoriaethu yn ôl difrifoldeb yr angen neu'r brys. Ceir rhagor o fanylion am y Gwasanaeth hwn ar Hwb neu wefan Cyngor Sir y Fflint.

3.12 Gweithio gydag asiantaethau eraill

Bydd Cyngor Sir y Fflint, gyda'i ysgolion a'i wasanaethau cymorth, yn parhau i ddatblygu trefniadau gweithio cydlynol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r sector gwirfoddol i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd swyddogion yn mynd ati i ymgysylltu â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) o fewn y Byrddau Iechyd lleol perthnasol i sicrhau ymagwedd gyfannol tuag at gefnogaeth.

3.13 Hyfforddiant

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant mewn perthynas â chreu capasiti o fewn ein sefydliadau addysgol. Caiff ystod o gyfleoedd hyfforddi eu darparu ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n gweithio â phlant gydag ADY ac mae'r Cyngor yn cydweithio ag asiantaethau eraill i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau o ran hyfforddiant. Ceir rhagor o fanylion ar safle Hwb Cyngor Sir y Fflint neu'n uniongyrchol gan wasanaethau unigol.

3.14 Monitro

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynorthwyo ei ysgolion i osod a monitro canlyniadau ystyrlon ar gyfer eu disgyblion gydag ADY a bydd yn darparu cefnogaeth i sicrhau bod systemau digonol ar waith yn yr holl ysgolion ar gyfer monitro cynnydd y disgyblion hyn.

Trwy wneud hynny, bydd y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth sydd ar gael i blant gydag ADY. Bydd gan bob ysgol Ymgynghorydd Dysgu dynodedig, a fydd yn cynnal ymweliad cefnogi a monitro blynyddol gyda'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cysylltir hefyd â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) yn ôl yr angen.

4. Hyrwyddo safonau addysg uchel ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY

Gyda'i ysgolion, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo safonau addysg uchel ar gyfer disgyblion gydag ADY.

Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy'r dulliau canlynol:

- Gwaith ei Wasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant i ddarparu ystod o gefnogaeth a darpariaeth ar gyfer plant gydag ADY, eu rhieni ac ysgolion;
- Rôl fonitro'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Diwylliant ac Ieuentid;
- Cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu;
- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint;
- Hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff addysgol i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion unigol yn briodol;
- Parhau i annog a chefnogi datblygiad a gweithrediad mesurau ataliol mewn ysgolion;
- Cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant rheolaidd ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Cyngor ac arweiniad ar faterion rheoli a pholisi cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ADY gan y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant a gwasanaethau canolog eraill y Cyngor;
- Ymgynghori gyda staff ysgolion a rhieni ynghylch anghenion disgyblion a grwpiau o ddisgyblion;
- Dyrannu cyllidebau dirprwyedig i ysgolion i'w cefnogi i gynnig Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol fel y nodir yn y Cynlluniau Datblygu Unigol;
- Mynediad i gyfleusterau arbenigol lle bo'n briodol;
- Annog ysgolion i fod â disgwyliadau uchel o'u disgyblion gydag ADY; a
- Mynediad i wasanaeth eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.



5. Annog plant a phobl ifanc gydag ADY i gyfran-nu'n llawn at eu haddysg

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi'n gryf fwriad Cod Ymarfer AAA Cymru 2002, Cod ADY Cymru 2021 a'r Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, er mwyn annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn yn eu hysgol a'u cymunedau a chymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir ynglŷn â'u haddysg.

Mae'n ceisio cyflawni'r nod hwn drwy:

- Hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws ysgolion a gwasanaethau'r Cyngor, gan gynnig hyfforddiant rheolaidd i aelodau staff sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol;
- Cynghori ysgolion i wahodd plant i fynychu cyfarfodydd lle maent yn gallu ac yn fodlon gwneud hynny;
- Gofyn i ysgolion ymgynghori gyda phlant ynglŷn â'u safbwyntiau ar eu hanghenion a'u dymuniadau fel rhan o brosesau ADY;
- Seicolegwyr Addysg a gwasanaethau arbenigol eraill yn casglu a chofnodi safbwyntiau plant ynghylch eu hanghenion a'u dymuniadau fel rhan o'u hasesiadau unigol;
- Annog ysgolion i ystyried sut y caiff disgyblion gydag ADY eu cynrychioli ar gyngor yr ysgol;
- Darparu mynediad i gynllun eiriolaeth annibynnol; a
- Gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i fynd ati i ymgorffori Llais y Dysgwyr wrth ddatblygu ac adolygu'r gwasanaeth.

6. Annog ysgolion i rannu eu harferion o ran darparu ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY

- Nodi arferion effeithiol drwy ymweliadau a'u rhannu drwy amrywiaeth o fforymau;
- Pan fo ysgolion yn penodi aelodau staff allweddol megis Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, cânt eu hannog i ddod o hyd i ymarferwyr profiadol o ysgolion eraill i fod yn fentoriaid ar gyfer y deiliaid swydd newydd; a
- Sefydlu ysgolion arbenigol, Unedau Cyfeirio Disgyblion Portffolio a darpariaethau ag adnoddau fel canolfannau arbenigedd fel y gall aelodau staff prif ffrwd gael mynediad iddynt a'u defnyddio.

7. Gweithio gydag asiantaethau statudol eraill a chyrrff gwirfoddol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod gwerth gweithio mewn partneriaeth agos gyda sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau eraill i gefnogi plant gydag ADY. Caiff y gydnabyddiaeth hon ei dangos mewn amrywiaeth o leoliadau a dulliau gwahanol, mae enghreifftiau wedi eu rhestru yn y tabl canlynol.

TEITL Y FFORWM	PRIF SWYDDOGAETH	AELODAETH
Paneli Gwneud Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol	Gwneud penderfyniadau allweddol yn ymwneud â'r broses asesu/ ystyried statudol.	Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant, cynrychiolwyr ysgolion, Gwasanaethau Plant, y Bwrdd Iechyd
Panel Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir	Cytuno ar a monitro lleoliadau nas cynhelir yn Sir y Fflint.	Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant, Gwasanaethau Plant, y Bwrdd Iechyd
Panel Plentyn i Oedolyn	Hwyluso pontio o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion.	Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, y Bwrdd Iechyd, cynrychiolwyr ysgolion, Gyrfa Cymru
Panel Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	Adolygu disgyblion gydag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu a chynllunio ar gyfer derbyn plant i Adnoddau Iaith.	Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Swyddogion Cynhwysiant, staff Adnoddau Iaith
Grŵp Strategol Addysg ac Ieuenctid/ Gwasanaethau Cymdeithasol	Annog arferion cydweithio effeithiol.	Rheolwyr y ddau Bortffolio, Swyddogion Addysg ac Ieuenctid a Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwasanaethau Iaith a Lleferydd Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWSALS)	Cydlynu darpariaeth ar gyfer plant gydag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.	Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Swyddogion Cynhwysiant a Dilyniant (Wrecsam a Sir y Fflint)
Grŵp Strategol Lles Emosiynol	Cydlynu a goruchwylio polisi ac arferion y Cyngor o ran iechyd a lles emosiynol.	Rheolwyr Addysg ac Ieuenctid, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Penaethiaid, y Gwasanaethau Cymdeithasol

8. Trefniadau cyffredinol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer diwallu ADY plant a phobl ifanc

8.1 Darpariaeth ar gyfer cynhwysiant

Mae strategaeth cynhwysiant Cyngor Sir y Fflint wedi'i gosod yng nghyd-destun cyffredinol gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuencid a Chynllun Cyngor Sir y Fflint.

8.2 Strategaeth Cynhwysiant

- Bydd Cyngor Sir y Fflint yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990, Datganiad Salamanca, Cod Ymarfer AAA Cymru 2002, Cod ADY Cymru 2021, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 203/2016: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion a Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Yn sylfaenol, mae cynhwysiant yn ymwneud â chyfleoedd cyfartal ac fe ddylai gael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd dyddiol, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial fel dinasyddion o fewn eu cymuned;
- Mae gan bawb hawl i gael mynediad at ddarpariaeth addysgol addas, gwasanaethau a phrofiadau o'r ansawdd gorau;
- Mae ethos cynhwysol yn golygu bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu ac yn ddiogel a'u bod yn rhan annatod o'u cymuned ddysgu leol;
- Mae gan bob plentyn, unigolyn ifanc a'u rhieni hawl i gael eu trin gyda pharch ac fe ddylid mynd ati i'w hannog i rannu eu safbwyntiau, fel bod modd eu hystyried;
- Dylid gofalu bod plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun iaith eu cartref, eu diwylliant a'u cymuned;
- Mae'n rhaid i'r cwricwlwm cynhwysol fod yn ddigon amrywiol, gwahaniaethol ac â digon o adnoddau er mwyn cyd-fynd ag anghenion dysgu unigol plant a phobl ifanc;
- Mae cynhwysiant yn golygu cynyddu a gwneud y mwyaf o gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn diwylliannau, cwricwla a chymunedau ysgolion lleol a'r gymdeithas ehangach;
- Bydd angen i ysgolion sicrhau bod eu diwylliannau, polisiau ac arferion yn gyfan gwbl gynhwysol er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc Sir y Fflint i gael mynediad at eu darpariaeth leol;
- Mae cynhwysiant yn broses barhaus yn hytrach na chyflwr sefydlog.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys pawb yng nghymuned yr ysgol, oedolion yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

Rydym wedi ymrwymo i:

- Gael gwared ar rwystrau sy'n atal plant a phobl ifanc rhag unrhyw gyfle i gyrraedd eu llawn botensial mewn unrhyw leoliad;
- Hyrwyddo system addysg gynhwysol ar draws yr holl fathau a chyfnodau o ysgolion a darparwyr eraill yn yr holl gyfnodau addysg, o'r blynyddoedd cynnar i fod yn oedolyn;
- Ymagwedd ataliol sy'n cynnwys nodi anghenion yn gynnar, ymyrraeth gynnar a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc;



- Creu capasiti o fewn ein hysgolion i gefnogi datblygiad arferion mwy cynhwysol;
- Cefnogi arweinyddiaeth effeithiol sy'n creu cyfeiriad clir ac yn cefnogi gweithredu newid;
- Mabwysiadu protocolau ac arferion sy'n ein helpu ni i wneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i helpu i ddatblygu a chynnal arferion cynhwysol;
- Sicrhau bod budd y plentyn, yr unigolyn a'r teulu wedi'u gwreiddio'n gadarn ac yn greiddiol i'n gwaith;
- Gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â defnyddio cyllid ac adnoddau yn seiliedig ar egwyddorion hyddysg yn ymwneud â datblygiadau a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Creu timau hynod arbenigol sy'n gweithio'n effeithiol ac yn cydweithio i sicrhau codi safonau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc;
- Gwrando a gweithredu ar adborth gan ystod o ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc;
- Diwylliant o ddisgwyliadau uchel o'n hunain, ein hysgolion a'r plant a'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

8.3 Manylion yr ystod o ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd mynediad i gontinwmm o ddarpariaeth ar gyfer unigolion gydag ADY. Fe wneir mwyafrif helaeth y ddarpariaeth hon mewn ystafelloedd dosbarth arferol mewn ysgolion prif ffrwd lleol drwy fynediad at ddysgu o ansawdd uchel a gwahaniaethu a mynediad at ymyrraeth gyffredinol wedi'i thargedu.

Fel arfer, mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys:

- Addasu'r cwricwlwm drwy wahaniaethu, addasu neu ddatgymhwyso;
- Addasu'r amgylchedd dysgu;
- Defnyddio offer neu ddeunyddiau arbenigol;
- Mynediad at gymorth oedolyn ychwanegol.

Mae rhai unigolion angen darpariaeth sy'n fwy arbenigol ei natur. Mae'r adran ganlynol yn rhestru'r ddarpariaeth ychwanegol sydd ar gael yn Sir y Fflint.

Ysgolion ag Adnoddau

Mae gan yr ysgolion canlynol gyfleusterau ag adnoddau. O ystyried natur hynod arbenigol y cyfleusterau hyn, fe fydd gan blant a phobl ifanc fel arfer Ddatganiad o AAA/Cynllun Datblygu Unigol i gael eu derbyn i'r rhain.

YSGOL	MATH O ANGEN Allweddol	Cyfnod
Ysgol Maes y Felin	Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol	CA2
Ysgol Tŷ Ffynnon	Anawsterau Dysgu Cymedrol	CS/CA2
Ysgol Bryn Coch	Anawsterau Dysgu Cymedrol	CA2
Ysgol Mynydd Isa	Amhariad Iaith Penodol	CS/CA2
Ysgol Glanrafon	Ystod o AAA trwy gyfrwng y Gymraeg	CA2
Ysgol Maes Glas	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol	CA2
Ysgol Alun	Amhariad ar y Clyw	CA3/4/5
Ysgol Uwchradd Argoed	Amhariad Iaith Penodol Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol	CA3/4 CA3/4
Ysgol Uwchradd Elfed	Anawsterau Cymdeithasol ac Emosiynol	CA3/4
Ysgol Uwchradd Penarlâg	Anawsterau Dysgu Penodol	CA3/4/5

Mae'r holl ysgolion uwchradd yn derbyn cyllid wedi ei ddirprwyo i gefnogi addysg disgyblion gydag ystod o anawsterau, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol.

Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio Plas Derwen

Mae Plas Derwen yn cynnwys ystod o gyfleusterau ar gyfer plant gydag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Cyfleuster	Lleoliad	Anghenion a gaiff eu diwallu	Cyfnod
Plas Derwen @ Canolfan Enfys	Yr Wyddgrug	Darpariaeth ar gyfer plant gydag ystod o anghenion dysgu ychwanegol sylweddol	CS
Plas Derwen	Queensferry	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol difrifol a chymhleth Anawsterau sy'n gysylltiedig â gorbryder neu iechyd meddwl	CA2, CA3 a CA4 CA3 a CA4

Ysgolion Arbenigol

Mae ysgolion arbenigol Sir y Fflint wedi eu hadeiladu, ac mae ganddynt adnoddau, i ddarparu ar gyfer disgyblion gydag anawsterau sylweddol a chymhleth yn ymwneud â gwybyddiaeth a dysgu. Mae'n bosibl y bydd gan ddisgyblion y dyrennir lleoedd iddynt anawsterau cysylltiedig hefyd e.e. Awtistiaeth, Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol. Disgwylir y bydd disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yn cael mynediad i ddarpariaeth naill ai o fewn eu hysgol gynradd brif ffrwd leol, canolfannau adnoddau cynradd arbenigol neu o fewn eu hysgolion uwchradd lleol.

YSGOL	Lleoliad	Cyfnod Allweddol
Ysgol Pen Coch	Safle a rennir gydag Ysgol Gwynedd, Y Fflint	Cyfnod Sylfaen/ CA2
Ysgol Maes Hyfryd	Safle a rennir gydag Ysgol Uwchradd y Fflint, Y Fflint	CA3/4/5

Caiff yr holl lleoliadau yn darpariaeth arbenigol Sir y Fflint eu pennu gan Banel Penderfyniadau ADY y Cyngor.

8.4 Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant Cyngor Sir y Fflint

Nod y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yw cynorthwyo rhieni, ysgolion a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion addysgol plant gydag ADY. Mae'n gwneud hynny o fewn cyd-destun ehangach blaenoriaeth gwella ysgolion y Cyngor i sicrhau fod pawb, gan gynnwys unigolion gydag ADY, yn gwneud y cynnydd addysgol mwyaf posibl.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth mewn perthynas ag ystod eang o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

8.5 Darpariaeth ar gyfer plant yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar

Caiff plant yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar megis cylchoedd chwarae a dosbarthiadau meithrin a gynhelir a nas cynhelir hefyd eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ADY a Chod ADY Cymru 2021. O'r herwydd, mae ganddynt hawl i unrhyw anghenion addysgol gael eu nodi a'u diwallu. Yn unol ag ymateb graddedig, fe fydd Proffil Un Dudalen yn cael ei lunio ar gyfer plant y nodir bod ganddynt anghenion addysgol a bydd yn nodi'r ddarpariaeth i'w rhoi ar waith i gefnogi'r plentyn drwy'r ddarpariaeth gyffredinol sy'n cael ei chynnig.

Mae Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar a Thîm Hawl Bore Oes y Blynyddoedd Cynnar yn chwarae rhan allweddol o ran cynghori lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ynghylch eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Mae Tîm Hawl Bore Oes y Blynyddoedd Cynnar yn cyflogi athro/athrawes sydd â gwybodaeth am y Cod ac yn cynorthwyo staff yn y lleoliadau hyn i nodi a diwallu anghenion addysgol. Os bydd gan blentyn anghenion difrifol a chymhleth, bydd y Cyngor yn ystyried ADY yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Cod. Pan ystyrir bod gan blentyn ADY, bydd CDU yn cael ei lunio gan yr awdurdod lleol.

9. Adnabod plant gydag ADY

Mae'n ofynnol i bob ysgol gydymffurfio â Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Pan dynnir sylw ysgol at y ffaith y gallai plentyn neu unigolyn ifanc fod ag ADY, mae'n rhaid iddynt ystyried a phenderfynu p'run ai a oes ganddynt ADY neu beidio (yn ddibynnol ar eithriadau). Bydd y trefniadau ar gyfer nodi'r unigolion gydag ADY fel arfer yn cynnwys detholiad o'r canlynol:

- Arsylwadau gan yr athro dosbarth, pwnc neu fugeiliol;
- Arsylwadau rhieni;
- Asesiad sy'n cyfeirio at feini prawf;
- Asesiad sylfaenol;
- Profion safonedig; a
- Gwybodaeth o arsylwadau/ adroddiadau proffesiynol eraill pan fo'r rhain ar gael.

Pan dynnir sylw'r Cyngor at y posibilrwydd fod gan blentyn neu unigolyn ifanc ADY, mae hefyd yn ddyletswydd arnom ni i ystyried a phenderfynu, fodd bynnag, efallai y byddwn yn penderfynu mai'r ysgol sydd yn y sefyllfa orau i ystyried yr ADY. Mewn rhai achosion, lle mae ysgol wedi penderfynu bod gan yr unigolyn ADY, yn hytrach na llunio'r CDU, gall gyfeirio'r achos at y Cyngor. Dylent wneud hyn dim ond os ydynt yn ystyried bod gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc ADY:

- a) sydd o bosibl yn galw am DDdY, na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau,
- b) nid oes modd gwneud penderfyniad digonol ar raddau neu natur yr ADY, neu
- c) ni ellir pennu DDdY ddigonol ar eu cyfer.

Yn unol â Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, mae'r Cyngor yn ystyried ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch anghenion plant a phobl ifanc a'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar sail unigol. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar ystod o egwyddorion, sydd i'w gweld yn adran 1 y ddogfen hon neu ar wefan Sir y Fflint.

9.1 Trefnu ystyriaeth ADY awdurdod lleol

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cydlynu'r broses ar gyfer ystyried ADY, fel y'i nodir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018), Cod ADY Cymru 2021 a'r Rheoliadau sy'n cyd-fynd â hwy.

9.2 Ceisiadau am ystyriaeth ADY a phenderfyniad gan yr awdurdod lleol

Os canfyddir bod gan blentyn neu unigolyn ifanc anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a hirdymor, gellir gwneud cais i'r awdurdod lleol am ystyriaeth ADY a phenderfyniad gan yr awdurdod lleol. Gall rhieni, ysgolion neu asiantaethau eraill wneud cais ac mae'n rhaid iddo gael ei ystyried gan yr awdurdod lleol (yn amodol ar eithriadau). Mae Cyngor Sir y Fflint wedi sefydlu paneli gwneud penderfyniadau ar gyfer ystyried pob cais o'r fath. Gellir cyfeirio at y broses hon gan y panel hefyd fel y broses gymedroli. Caiff Cydlynnydd Dynodedig ei nodi ar gyfer pob plentyn a gyflwynir i'r panel. Os na chaiff cais ei dderbyn, bydd llythyr eglurhaol yn cael ei anfon at y rhieni a'r plentyn. Os caiff ei dderbyn, dechreuir ar y broses ar unwaith a bydd ceisiadau'n cael eu hanfon at asiantaethau perthnasol yn gofyn am gyngor ynghylch y plentyn. Cynigir cyfarfod cychwynnol i'r rhieni i egluro'r broses. Caiff cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd ei drefnu gyda'r holl bartïon cysylltiedig.

9.3 Y broses asesu/ ystyried

Pan fydd yr holl gyngor wedi cael ei dderbyn, bydd yn cael ei rannu ag aelodau'r panel gwneud penderfyniadau cyn y cyfarfod. Yn y cyfarfod, bydd pob aelod o'r panel yn rhannu eu safbwyntiau ynghylch angen y plentyn am CDU ac, os oes angen CDU, pa DDdY sydd ei hangen a pha gorff cyfrifol ddylai ei lunio a/neu ei gynnal. Mae gan blant, pobl ifanc a rhieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod lleol.

Pwy sydd ar y Paneli Gwneud Penderfyniadau?

Mae'r paneli gwneud penderfyniadau yn cynnwys nifer o'r gweithwyr proffesiynol canlynol:

- ymgynghorwyr dysgu ADY
- cynrychiolydd o ysgol
- un neu fwy o swyddogion Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yr Awdurdod Lleol
- seicolegydd addysg
- cynrychiolydd o'r Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio
- cynrychiolydd iechyd (panel cyn-ysgol)
- cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Plant (panel cyn-ysgol)
- cynrychiolwyr o wasanaeth Blynnyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol (panel cyn-ysgol)

Caiff aelodau'r panel eu dewis gan fod ganddynt naill ai wybodaeth arbenigol am blant gydag anghenion ychwanegol neu gan eu bod yn gyfrifol am ddyrannu adnoddau'r Cyngor. Gall y panel drafod anghenion sawl unigolyn ym mhob cyfarfod. Maent yn edrych ar y dystiolaeth a ddarparwyd ac yn cydweithio i benderfynu ar y cam gweithredu sydd ei angen.

Rhoddir gwybod i'r rhieni a'r plentyn neu'r unigolyn ifanc beth yw'r penderfyniadau a wneir gan y panel bob amser ac yna gallant drafod y penderfyniadau ymysg ei gilydd neu gyda'r gwasanaethau cymorth dynodedig, e.e. Cyfaill Achos, Gwasanaeth Cefnogi a Gwybodaeth ADY SNAP Cymru.

Pa mor aml mae paneli'n cyfarfod?

Mae'r paneli gwneud penderfyniadau yn cyfarfod yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol, a chynhelir cyfarfodydd bob pythefnos yn ystod gwyliau ysgol hirach.

Beth fyddant yn ei drafod?

Bydd y panel yn trafod anghenion amlwg ac anghenion cydnabyddedig y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Byddant yn trafod y gefnogaeth sydd ar waith gan y lleoliad yn ogystal ag unrhyw gyngor a chymorth a roddwyd gan arbenigwyr allanol. Rhoddir ystyriaeth i gyfradd cynnydd addysgol mewn ymateb i gyngor a chefnogaeth o'r fath.

Canlyniad Asesiad Statudol/ Ystyriaeth ADY awdurdod lleol

Yn dilyn yr asesiad/ystyriaeth, bydd y panel gwneud penderfyniadau yn cyfarfod eto i drafod y canfyddiadau a phenderfynu ar y gefnogaeth y dylai plentyn neu unigolyn ifanc ei derbyn. Gall benderfynu nad oes gan yr unigolyn ADY ac felly na fyddai angen CDU.

Os bydd rhieni, plentyn neu unigolyn ifanc yn anghytuno gyda'r penderfyniad hwn, gallant apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru (Rhif ffôn: 0300 025 9800).

Os bydd y panel gwneud penderfyniadau yn penderfynu bod gan unigolyn ADY, bydd yn trafod y ddarpariaeth benodol a fydd ym marn y panel yn diwallu ei anghenion. Bydd y rhieni a'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael gwybod am y ddarpariaeth mewn CDU drafft. Os ydynt yn cytuno gyda'i gynnwys yna, fe fydd y ddarpariaeth yn cael ei rhoi ar waith a bydd CDU Terfynol yn cael ei gyhoeddi. Os nad ydynt yn cytuno â'r CDU arfaethedig, gallant ofyn i newidiadau gael eu gwneud. Bydd yr Ymgynghorydd Dysgu Dynodedig yn trafod eu cais, gan ystyried budd pennaf yr unigolyn a dyletswydd yr awdurdod lleol i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau.

Bydd rhan o'r ddarpariaeth i'w phenderfynu yn cynnwys y lleoliad ysgol. Blaenoriaeth Cyngor Sir y Fflint yw galluogi disgyblion i aros yn agos i'w cartref a rhoddir ystyriaeth i hyn wrth bennu lleoliad addas. Pan wneir cais am leoliad nad yw yn Sir y Fflint, naill ai gan y rhiant, y plentyn, yr unigolyn ifanc neu'r gweithwyr proffesiynol, fe fydd yr Ymgynghorydd Dysgu dynodedig yn cyflwyno sylwadau ar ffurf arfarniad dewisiadau i banel cydgomisiynu yn cynnwys cynrychiolwyr Addysg, Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y panel yn ystyried yr achos ac yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r angen am leoliad allanol. Bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

10. Monitro derbyniadau plant a phobl ifanc gydag ADY

10.1 Polisi Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal polisi derbyniadau ar gyfer ei holl ysgolion. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithdrefnau derbyn ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys y rhai gydag ADY. Caiff copi o'r polisi ei ddarparu i holl rieni Sir y Fflint ar yr adegau perthnasol yn ystod gyrfa addysgol eu plentyn ac mae hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

10.2 Ystod y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol yn Sir y Fflint

Caiff ystod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag ADY ei hadolygu'n barhaus. Caiff derbyniadau unigolion gyda datganiadau AAA/ cynlluniau datblygu lleol wedi'u llunio gan yr awdurdod lleol eu monitro drwy'r canlynol:

- Paneli gwneud penderfyniadau yn monitro derbyn disgyblion unigol gyda datganiadau/ cynlluniau datblygu unigol wedi'u llunio gan yr awdurdod lleol i ddarpariaeth prif ffrwd ac arbenigol;
- Adolygiadau blynyddol o ddatganiadau/ cynlluniau datblygu unigol yn monitro perthnasedd parhaus lleoliad y plentyn; ac
- Ysgolion unigol yn monitro lleoliadau plant drwy adolygiadau Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/ cynlluniau datblygu unigol ysgolion.

11. Cefnogi ysgolion gyda darparu ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY

11.1 Ysgolion prif ffrwd

Mae gan ysgolion prif ffrwd sawl ffrwd gyllido:

- Tybir y bydd swm tybiedig o gyllid yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion ar gyfer darpariaeth ADY o'r cyllid a dderbynnir drwy'r uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl. Mae'r Cyngor yn argymhell bod o leiaf 5% o gyllideb yr ysgol gyfan yn cael ei defnyddio i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae cyllid i gefnogi ADY yn rhan o gyllideb ddirprwyedig gyffredinol ysgolion. Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid hwn ei ddyrannu i ysgolion unigol drwy fformiwla. Gellir cael rhagor o gyllid o gyllideb Adnoddau Ychwanegol yr ysgolion dynodedig ar ffurf dyraniad 'atodol' ar gyfer plant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid 'Band C'. Ceir mynediad iddo mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd y plentyn yn dangos angen iechyd sylweddol/ difrifol hirdymor, sy'n golygu fod angen goruchwyliaeth ddwys gan oedolyn ar gyfer anghenion meddygol, hunanofal, corfforol a symudedd i gefnogi mynediad at addysg. Caiff mynediad i'r cyllid ei awdurdodi gan baneli gwneud penderfyniadau'r Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn cynnal system o Ysgolion ag Adnoddau ar gyfer ADY, sy'n cynnwys Canolfannau Adnoddau arbenigol. Darperir cyllid ar gyfer y cyfleusterau hyn yn ôl Cytundeb Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arno gyda chorff llywodraethu pob ysgol.

11.2 Ysgolion Arbennig

Caiff ysgolion arbennig eu hariannu yn ôl archwiliad blynyddol sy'n gosod plant a phobl ifanc mewn bandiau ariannu sy'n amrywio yn ôl difrifoldeb a chymhlethdod eu hanghenion.



12. Archwilio, cynllunio, monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY

12.1 Cyffredinol

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gydag ysgolion i fonitro effeithiolrwydd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer ADY o ran diwallu'r anghenion hynny. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:

- Cwblhau CYBLD, cyfrifiad blynyddol lle mae ysgolion yn nodi ystod a difrifoldeb anghenion disgyblion unigol;
- Nodi a rhannu arferion effeithiol gyda'r holl ysgolion;
- Ymweliadau blynyddol penodol ag ysgolion arbenigol;
- Canllawiau i ysgolion ar ganlyniadau y gellir eu gosod; a
- Monitro drwy ystod o gyfarfodydd amlasiantaeth, gan gynnwys adolygiadau dros dro a blynyddol.

12.2 Disgyblion unigol

Cynlluniau Datblygu Unigol dan ofal yr ysgol

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn darparu canllawiau sy'n amlinellu cyfrifoldebau ysgolion, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill mewn perthynas â phlant gydag ADY. Y pwynt cychwynnol yw nodi anghenion unigolyn ac yn dilyn hynny datblygu rhaglen o ymyrraeth (Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol) o'r ysgol sydd wedi'i thargedu i gefnogi cynnydd yn y meysydd a nodwyd. Mae gan rieni a gofalwyr ran allweddol i'w chwarae o ran cefnogi eu plentyn ac mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni cynnydd. Mewn rhai achosion, gall unigolyn fod ag anghenion mwy cymhleth lle mae angen cyngor, arweiniad a chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill, y tu allan i'r ysgol. Fe ddylai plant, eu rhieni a phobl ifanc fod yn rhan o'r gwaith o lunio ac adolygu'r CDU.

Plant gyda datganiadau neu gynlluniau datblygu unigol gan yr awdurdod lleol

Caiff adolygiad blynyddol ei gynnal ar gyfer pob plentyn. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan y plentyn. Fel arfer, bydd y Cyngor, naill ai drwy ei wasanaeth ADY, Gwasanaeth Seicoleg Addysg neu wasanaethau arbenigol eraill yn cael gwahoddiad i fynychu adolygiadau blynyddol. Mae'r Cyngor yn gofyn yn benodol i ysgolion wahodd swyddogion i adolygiadau pontio neu lle mae cynnydd neu leoliad plentyn yn destun pryder. Caiff holl adroddiadau'r adolygiadau blynyddol eu harchwilio gan yr Ymgynghorydd Dysgu Dynodedig. Pan fo'r adroddiad yn amlygu unrhyw beth sy'n destun pryder, bydd yr Ymgynghorydd Dysgu yn cyflwyno'r mater gerbron y panel gwneud penderfyniadau i'w archwilio ymhellach.

12.3 Cefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY trwy gynlluniau datblygu unigol dan ofal yr ysgol

Rhoddir arweiniad gan yr awdurdod lleol ar ffurf pecyn gwaith ADY i gefnogi ysgolion. Mae cefnogaeth ac arweiniad ychwanegol ar gael drwy gyfarfodydd Fforwm y Cydlynwyr ADY, ymgynghoriad grŵp a chyfarfodydd clwstwr.

12.4 Sicrhau hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i aelodau staff sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc gydag ADY

Hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol

Mae cyllid wedi'i ddirprwyo i ysgolion i ariannu hyfforddiant ar gyfer aelodau staff i ddiwallu anghenion plant gydag ADY. Mae Cydlynwyr Hyfforddiant mewn Swydd Ysgolion yn blaenoriaethu anghenion hyfforddi'r ysgol ei hun a byddant yn gwahodd siaradwyr neu'n trefnu i aelodau staff fynychu cyrsiau priodol.

Hyfforddiant Mewn Swydd dan arweiniad yr Awdurdod Lleol

Mae'r awdurdod lleol yn darparu rhaglen reolaidd o hyfforddiant ADY ar gyfer ei ysgolion. Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a nodwyd drwy ymgynghori ag ysgolion, ffurflenni gwerthuso o'r cyrsiau blaenorol a thrwy flaenoriaethau hyfforddi'r Cyngor ei hun. Dyma'r mathau o hyfforddiant a chynghor gan y Cyngor:

- Cyrsiau a gaiff eu cynnig drwy'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd reolaidd;
- Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;
- Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Cydraddoldeb;
- Digwyddiadau unigol ar bynciau penodol megis Awtistiaeth;
- Cyngor ac arweiniad ar unigolion neu grwpiau a gaiff eu cynnig gan y gwasanaethau cymorth canolog;
- Cefnogaeth ar e-bost;
- Fforymau'r Cydlynwyr ADY; a
- Rhannu arferion da.

12.5 Dyraniadau cyllideb i awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer disgyblion gydag ADY

Ffrydiau ariannu/ adnoddau ar gyfer disgyblion gydag ADY

Mewn ysgolion prif ffrwd, mae yna bedair prif ffynhonnell o gyllid ar gyfer disgyblion gydag ADY.

Sef:

- Swm tybiedig o gyllideb yr ysgol gyfan ar wahân i'r hyn sydd wedi ei ddyrannu'n benodol ar gyfer plant gydag ADY (argymhellwyd 5% o'r gyllideb gyfan);
- Cyllid cyffredinol wedi ei ddirprwyo i'r ysgol ar gyfer plant gydag ADY;
- Cyllid wedi ei ddirprwyo ar gyfer dosbarthiadau ag adnoddau; a
- Chyllid neu adnoddau wedi'u dyrannu i ddisgyblion penodol.

Ariannu Ysgolion Arbennig

Caiff fformiwla ei ddefnyddio i gyfrifo'r cyllid ar gyfer ysgolion arbennig. Caiff cyllid disgyblion ei ddyrannu yn erbyn pum categori o angen a bydd pob categori yn derbyn cyllid sy'n gymesur ag angen unigol.

Cyllid wrth gefn gan yr ALI i ddiwallu ADY

Mae'r Cyngor yn cadw cyllid wrth gefn ar gyfer disgyblion gydag ADY yn y meysydd canlynol:

- Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
- Y Gwasanaethau Ymgysylltu a Lles;
- Y Gwasanaethau Cynhwysiant Dysgu;
- Gweinyddu asesiad statudol/ ystyriaeth ADY;
- Uwch Reolwr - Cynhwysiant a Dilyniant;
- Costau penodol i'r disgybl nad oes modd eu rhagweld;
- Cyfleusterau Uned Cyfeirio Disgyblion; a
- Darpariaeth nas cynhelir/ y Tu allan i'r Sir.

Y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag ADY y gall ysgolion ei disgwyl o gyllid wrth gefn gan yr awdurdod lleol

- Cyngor, ymgynghoriad ac arweiniad ar blant gydag ADY, yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- Lle bo'n briodol ac yn hanfodol, asesiad unigol o blant gydag ADY, yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- Lle bo'n briodol, gwneud gwaith unigol neu grŵp â phlant gydag ADY, yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- Addysgu arbenigol uniongyrchol lle bo plant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y gefnogaeth hon, drwy wasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol;
- Prynu offer drud iawn ar gyfer plant unigol na ellid disgwyl yn rhesymol i ysgol eu darparu o fewn ei hadnoddau ei hun. Bydd hyn fel arfer yn seiliedig ar argymhellion ffisiotherapyddion neu therapyddion galwedigaethol;
- Lleoliad mewn cyfleusterau arbenigol a reolir gan yr awdurdod lleol ar gyfer plant gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol; a
- Lleoliad mewn cyfleusterau arbenigol nas cynhelir ac ysgolion ar gyfer plant na ellir diwallu eu hanghenion eithriadol o fewn ein hysgolion a'n cyfleusterau ein hunain.

12.6 Monitro ac adolygu gwasanaethau cymorth ADY canolog

Mae gwasanaethau canolog ar gyfer plant gydag ADY yn perthyn i Wasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant unigol. Mae'r Uwch Reolwr Cynhwysiant a Dilyniant yn arwain y gwasanaeth ac yn rhan o Uwch Dîm Rheoli Addysg ac Ieuencid y Cyngor, ac mae'n atebol i'r Prif Swyddog Addysg ac Ieuencid.

Mae adolygu effaith gwasanaeth yn rhan annatod o rôl yr holl reolwyr Cynhwysiant a Dilyniant. Caiff canlyniadau disgyblion eu monitro, eu hadolygu a'u hystyried mewn perthynas â chyllideb y gwasanaeth, er mwyn sicrhau defnydd effeithlon o gyllid yr awdurdod lleol. Mae disgwyl i wasanaethau ymgynghori'n rheolaidd â'u defnyddwyr a defnyddir y wybodaeth hon i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau.

Mae gan Blas Derwen, yr Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio, Bwyllgor Rheoli. Hefyd, mae ganddi rôl debyg i gorff llywodraethu ysgol ar gyfer yr holl gyfleusterau sy'n rhan o'r Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio. Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal ac fe ystyrir yr effaith / canlyniadau, yn ogystal â datblygiad y gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant hefyd yn destun adolygiad drwy ddangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn rhan o waith monitro Cyngor Sir y Fflint a chaiff cynnydd ei fonitro bob chwarter ac mae'n destun craffu gan aelodau'r Cyngor.

Darperir monitro allanol drwy Estyn fel rhan o'r broses arolygu ar gyfer awdurdodau lleol.

12.7 Monitro ac adolygu'r gwasanaethau cyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth ADY annibynnol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhan o contract rhanbarthol Gogledd Cymru gyda SNAP Cymru i ddarparu cefnogaeth ADY i rieni, plant a phobl ifanc. Caiff y gwasanaeth ei adolygu drwy:

- Adroddiad ysgrifenedig blynyddol gan SNAP Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer, natur a chanlyniadau'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol; ac
- Adolygiad rhanbarthol/ rheoli contract.

12.8 Ystyried niferoedd disgyblion presennol a'r niferoedd a ragwelir

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadw gwybodaeth am bob plentyn sydd â datganiadau a chynlluniau datblygu unigol gan yr awdurdod lleol ar gronfa ddata ganolog. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ragweld tueddiadau plant yn y dyfodol o ran difrifoldeb a natur anghenion. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yn gweithio yn y modd canlynol i wella arferion yn y maes hwn:

- gweithio'n agos â chydweithwyr yn y Bwrdd lechyd i gael gwybodaeth am blant ifanc iawn gydag anghenion, fel bod modd cynllunio darpariaeth a lleoliadau yn llawer cynharach; a
- dadansoddi data asesu sylfaenol i ragweld tueddiadau yn y dyfodol.

Caiff y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant ei gynrychioli ar Fforwm Derbyniadau Ysgol y Cyngor, sy'n goruchwyllo'r ddarpariaeth o leoedd mewn ysgolion ar draws Sir y Fflint.

12.9 Monitro'r mathau o anghenion a nodwyd a lle caiff plant a phobl ifanc eu lleoli

Mae pob plentyn gydag ADY yn destun proses adolygu, e.e. adolygiadau CDU, adolygiadau Datganiad Blynyddol, adolygiad o'r Cynllun Cefnogaeth Fugeiliol ac ati, p'un a ydynt yn mynychu darpariaeth brif ffrwd leol neu ddarpariaeth annibynnol arbenigol. Mae gan y Cyngor drosolwg o gynnydd o safbwynt unigol neu grŵp, trwy rolau swyddogion allweddol neu drwy wasanaethau ar y cyd megis gwasanaeth Gwella Ysgolion GwE.

Caiff ystod y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r angen ei adolygu, a chaiff gwybodaeth ei chymryd o'r paneli gwneud penderfyniadau a'r Panel Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir. Defnyddir hyn i ad-drefnu neu gomisiynu darpariaeth yn ôl yr angen.

Effaith ysgolion / Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant

Defnyddir dangosyddion perfformiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar bob cyfnod addysgol i fesur cynnydd holl ddysgwyr Sir y Fflint a gwerthuso effaith gwasanaethau cymorth penodol.



Atodiad 1 - Rhestr Termau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol.
DDdY	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol - y gefnogaeth a'r ymyrraeth sydd eu hangen i helpu unigolyn gydag ADY i gael mynediad at addysg.
Cydlynnydd ADY	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol - Mae'n rhaid i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru ddynodi unigolyn, neu fwy nag un unigolyn, a fydd yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth i ddysgwyr gydag ADY. Bydd yr unigolyn (neu unigolion) yn cael eu hadnabod fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Gydlynnydd ADY.
BESD	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
Dirprwyedig	Mae cronfeydd 'dirprwyedig' yn cael eu darparu i ysgol at ddiben penodol. Caiff y swm ar gyfer pob ysgol ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla.
Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg	Mae Seicolegwyr Addysg yn hybu datblygiad, ymddygiad a dysg plant. Maent yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, athrawon a phobl sy'n gweithio gydag asiantaethau eraill.
CDU	Cynllun Datblygu Unigol - cynllun ysgrifenedig yw hwn gyda disgrifiad o anghenion, canlyniadau a darpariaeth. Dylai'r rhieni a'r disgybl fod yn rhan o'r gwaith o lunio ac adolygu'r cynllun.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y rhan honno o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n darparu gwasanaethau iechyd lleol i Ogledd Cymru.
ADC	Anawsterau Dysgu Cymedrol.
Swm tybiedig	Swm sydd wedi ei fwriadu ar gyfer diben penodol.
Rhiant	Unigolyn yr ystyrir fod ganddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu unigolyn ifanc.
ADDaLI	Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog.
Dosbarth ag adnoddau	Dosbarth mewn ysgol brif ffrwd sy'n derbyn cyllid ychwanegol fel bod ganddo'r cyfarpar ar gyfer y disgyblion a fydd yn mynd yno.
AAA	Anghenion Addysg Arbennig.
ADD	Anawsterau Dysgu Difrifol.

